Swansea University
Prifysgol Abertawe

# Prifysgol Abertawe

## Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN22:

- **Gwastraff Miniog Labordai a Gweithdai**

| | |
|---|---|
| **Diweddarwyd Gan:** | Ben Harris (Swyddog yr Amgylchedd) |
| **Cymeradwywyd gan:** | Teifion Maddocks (Rheolwr Cynaliadwyedd) |
| **Dyddiad creu:** | 09/11/2018 |
| **Dyddiad y Fersiwn:** | 18/11/2025 |

| Nodyn Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff WMGN22<br>Eitemau Miniog mewn Labordai a Gweithdai | |
|---|---|
| Man creu | **Categori o Labordy** |
| Côd Gwastraff Ewropeaidd (EWC) | 18 01 03* / 18 01 06* / 18 01 01 |
| Dosbarth Cludo a Rhif UN | Dosbarth 6.2 / UN 3291 |
| Math | Rheoledig – Gwastraff Peryglus |
| Dull gwaredu | Wedi'i wahanu i'w losgi |
| Math o fin | **Blwch melyn gwrymiog â chaead melyn**<br>4ltr, 7ltr, 30ltr |

## Gofynion Dyletswydd Gofal

CGA 18 01 03* "Gwastraff y mae ei gasglu a'i waredu yn ddarostyngedig i ofynion arbennig er mwyn atal heintio"
CGA 18 01 06* "cemegau sy'n sylweddau peryglus neu sy'n cynnwys sylweddau peryglus"
CGA 18 01 01 "eitemau miniog"

Mae'n ofyniad cyfreithiol i sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei ddosbarthu'n gywir. Gall gwaredu gwastraff peryglus yn anghywir drwy ffrwd wastraff nad yw'n beryglus arwain at gosbau cyfreithiol ac ariannol sy'n dibynnu ar ddifrifoldeb y diffyg cydymffurfio. Rhaid ymdrin ag eitemau miniog ac eitemau miniog wedi'u halogi'n gemegol a gynhyrchir yn labordai a gweithdai'r Brifysgol yn ddiwyd a rhaid eu gwahanu i'w gwaredu.

Mae gan y Brifysgol gontractwr gwastraff gofal iechyd peryglus penodedig sy'n cyflenwi gwasanaeth casglu i Gampysau Singleton a'r Bae ar gyfer gwaredu eitemau miniog.

## Eitemau

Rhaid rhoi pob **eitem miniog** (gan gynnwys gwastraff sy'n debygol o dyrnu bagiau coch/melyn/oren) mewn **blwch eitemau miniog melyn** i'w gwaredu.

Gellir rhoi eitemau miniog wedi'u halogi'n gemegol, a biolegol (nid cytotocsig/cytostatig) mewn Blwch Eitemau Miniog â Chaead Melyn 4 - 30ltr. Enghreifftiau fyddai:

- Ffiolau Plastig/Gwydr
- Chwistrellau a nodwyddau
- Tiwbiau capilari
- Tiwbiau ymdoddbwynt
- Pecynnau profi
- Tiwbiau samplu plastig/gwydr
- Pipedau Pasteur
- Pibedau plastig
- Pipedau serolegol
- Blaenau plastig
- Llafnau
- Siswrn
- Offer tafladwy eraill

**Ni ddylid rhoi unrhyw un o'r eitemau uchod mewn bagiau du, clir, melyn, oren neu goch o dan unrhyw amgylchiadau.**

## Cyfarwyddiadau Gwaredu

**<u>Storio'n Fewnol</u>**



Ffigur 1: Biniau melyn i eitemau miniog (4/7/30 litr ar gael)

Rhaid rhoi <u>pob eitem miniog</u> mewn blychau melyn i eitemau miniog; ni ddylid rhoi unrhyw eitemau miniog mewn biniau mewnol, neu finiau gwastraff ac ailgylchu allanol, o dan unrhyw amgylchiadau.

Gellir cael biniau melyn i eitemau miniog a llofnodi ar eu cyfer o'r lleoliadau canlynol:

**Campws Singleton**

- FSE/FMHLS – Storfeydd ILS1

**Campws y Bae**

- FSE – Swyddfa'r Iard Gwasanaeth Peirianneg

**<u>Storio/Gwaredu Allanol</u>**

Ar gyfer gwaredu, gwnewch yn siŵr bod y caead wedi'i selio i'w gludo. Ni ddylai biniau eitemau miniog llawn gronni yn y labordy neu'r gweithdy a dylid eu gwaredu mewn modd amserol. Rhaid mynd â biniau eitemau miniog llawn yn ôl i'r lleoliadau canlynol:

**Campws Singleton**

- FSE/FMHLS – Storfeydd ILS1

**Campws y Bae**

- FSE – Swyddfa'r Iard Gwasanaeth Peirianneg (biniau melyn 1100 allanol pwrpasol) Gofynnwch i staff swyddfa'r iard gwasanaeth am fynediad

**Ni ddylid rhoi biniau eitemau miniog mewn biniau gwastraff ac ailgylchu allanol.**

## Cost Gwaredu

Codir tâl am y gwasanaeth hwn, e-bostiwch estates-waste@abertawe.ac.uk am ragor o fanylion.

**Am ragor o arweiniad, e-bostiwch** Estates-Waste@abertawe.ac.uk

## Ffurflenni a Labelu

Mae'r holl ffurflenni, labeli a chanllawiau gwastraff perthnasol ar gael yma.

## Atodiad 1 : Diagram Gwahanu a Dosbarthu Gwastraff[1]

Defnyddiwch y diagram llif canlynol i sicrhau eich bod yn defnyddio'r bin lliw cywir ar gyfer eich gwastraff




**DS:** Er bod y canllawiau hyn yn berthnasol yn benodol i wastraff o leoliadau clinigol a gofal iechyd, gellir eu defnyddio hefyd i lywio arferion gwastraff mewn amgylcheddau labordy eraill. Fodd bynnag, cyfeiriwch at y Nodiadau Cyfarwyddyd Rheoli Gwastraff (WMGN) perthnasol ar gyfer gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus arall.

[1]Memorandwm Technegol Iechyd 07-01: Atodiad 3

# RHYBUDD GWASTRAFF PERYGLUS

*NIWEIDIOL*

HARMFUL

## BIN EITEMAU MINIOG - GWYDR SYDD WEDI TORRI YN Y LABORDY YN UNIG

**BIN CLINIGOL MELYN GWRYMIOG 30L - CAEAD MELYN - EWC** 18 01 03 *

**EITEMAU**

**GWYDR SYDD WEDI TORRI A'I HALOGI YN Y LABORDY YN UNIG**

**LLENWCH HYD AT Y LLINELL YN UNIG**

**DIM NODWYDDAU / FFLEIMIAU / EITEMAU MINIOG METEL / CHWISTRELLAU / LLAFNAU**

**STORIO/CASGLU - GWELER Y WEITHDREFN WEITHREDOL; GWASTRAFF CEMEGOL**

# RHYBUDD GWASTRAFF PERYGLUS



*NIWEIDIOL*

HARMFUL

## EITEMAU MINIOG

**BIN CLINIGOL PEN DESG MELYN GWRYMIOG 30L - CAEAD MELYN -** EWC 18 01 03 *

### EITEMAU

**NODWYDDAU / FFLEIMIAU / TIWBIAU CAPILARI WEDI'U TORRI / EITEMAU MINIOG / CHWISTRELLAU / LLAFNAU / SLEIDIAU**

**DIM GWYDR SYDD WEDI TORRI YN Y LABORDY**